



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

Cyllideb Atodol

2022-2023

Nodyn Esboniadol

Chwefror 2023

llyw.cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Dyraniadau Allweddol i Gronfeydd Wrth Gefn ac ohonynt	3
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23	6
4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion	17
5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion	19
6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn	21
7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	31
Atodiad 1 – Ailddatgan y Gyllideb Flynyddol Gyntaf	34
Atodiad 2 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	41
Atodiad 3 – Geirfa	43

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â:
wag-en@mailuk.custhelp.com

1. Cyflwyniad

- 1.1** Heddiw, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r ail gyllideb atodol ar gyfer 2022-23, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2022-23 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 12 Gorffennaf 2022.
- 1.2** Ers i'r Gyllideb Atodol Gyntaf gael ei chyhoeddi, mae cyfrifoldebau'r Gweinidogion wedi newid. Mae ffigurau llinell sylfaen y Gyllideb Atodol Gyntaf yn y tablau yn y ddogfen hon wedi'u hailddatgan yn unol â'r Portffolios Gweinidogol newydd a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae manylion y llinellau sylfaen wedi'u hailddatgan i'w gweld yn Atodiad 1.
- 1.3** Mae'r gyllideb atodol hon yn rheoleiddio dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt, trosglwyddiadau o fewn a rhwng portffolios. Mae hefyd yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.4** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.
- 1.5** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dyraniadau Allweddol i Gronfeydd Wrth Gefn ac Ohonynt

2.1 Cymorth i Wcráin

Fel Cenedl Noddfa, gwnaethom ymrwymiad i groesawu'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin a dyrannwyd cyllid o £20m yn y gyllideb atodol gyntaf i gefnogi gwaith cychwynnol wrth sefydlu ein llwybr uwch-noddwr sydd wedi croesawu dros 3,000 o bobl i Gymru hyd yn hyn.

Yn yr ail gyllideb atodol hon rydym wedi dyrannu **£91.664m** pellach i gefnogi ein hymateb dyngarol i'r rhyfel yn Wcráin yn ystod y flwyddyn. Mae'r dyraniad hwn yn cael ei wrthbwysu gan **£74.4m** a ddaeth i law oddi wrth Lywodraeth y DU.

Mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol, gyda chefnogaeth sefydliadau eraill ledled Cymru, rydym wedi cynyddu nifer y Canolfannau Croeso ac rydym yn parhau i ddefnyddio llety cychwynnol dros dro i ateb y galw o du'r rhai sy'n cyrraedd. Rydym yn parhau i ariannu canolfan gyswllt genedlaethol, llinell gymorth a chanolfannau cyrraedd.

Rydym am helpu'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin ac sydd wedi cael croeso cefnogol yma i gymryd cam pellach tuag at gael eu hintegreiddio cyn gynted â phosibl er mwyn ymgynefino â bywyd yng Nghymru a rhoi gwreiddiau i lawr yn ein cymunedau lleol. Gan weithio gyda'r awdurdodau lleol rydym wedi datblygu ystod o fecanweithiau cymorth i hwyluso annibyniaeth ac integreiddio.

2.2 Cymorth i'r Gwasanaeth Iechyd

Eleni mae'r GIG wedi wynebu nifer o heriau, wrth iddo adfer ar ôl y pandemig, gan wynebu'r galw uchaf erioed a chynnydd mewn costau. Gan adeiladu ar ein Cyllideb Derfynol, mae'r gyllideb atodol hon yn darparu pecyn gwerth cyfanswm o **£170m** i gefnogi'r GIG; ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus fel Llywodraeth i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae £21.1m wedi'i aildrefnu o bortffolios eraill i ariannu'r cymorth hwn.

Bydd y dyraniad hwn yn ariannu'r costau ynni ychwanegol eithriadol o **£81m** a wynebwyd gan y GIG y gaeaf hwn, o ganlyniad i anwadalrwydd yn y farchnad a achoswyd gan y rhyfel yn Wcráin.

Mae swm pellach o **£89m** yn cefnogi'r costau parhaus ychwanegol sy'n gysylltiedig â'n hymateb i Covid-19 sy'n dal i gael eu hwynebu gan sefydliadau'r GIG.

2.3 Dyfarniadau cyflog 2022/2023

Rydym yn credu y dylai ein holl weithwyr yn y sector cyhoeddus gael eu gwobrwyo'n deg am y gwaith pwysig y maent yn ei wneud. Yn anffodus, mae setliad ariannol presennol Cymru yn llawer llai na'r hyn y mae ei angen i ymateb i'r heriau sylweddol iawn y mae ein gwasanaethau cyhoeddus a'n gweithwyr ar draws Cymru yn eu hwynebu.

Yn niffyg cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer setliadau cyflog, bydd angen i gyllid pellach ar gyfer unrhyw gytundebau cyflog ddod o gyllidebau presennol sydd wedi cael eu herydu gan ystod o bwysau chwyddiant.

Er gwaethaf y cyd-destun economaidd a chyllidol heriol, rydym wedi ymrwymo yn llwyr o hyd i wneud popeth ein gorau glas i ddiogelu'r gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen y mae pobl yn dibynnu arnynt.

Bu angen inni wneud dewisiadau anodd o gofio ein blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, ond yn y gyllideb atodol hon rydym wedi gwneud dyraniadau i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG y Gymraeg ac Addysg o £120m a £32m yn y drefn honno i gefnogi setliad posibl i [staff GIG Cymru](#) ac [athrawon](#).

2.4 Symudiadau DEL Adnoddau Anghyllidol

Mae gostyngiad sylweddol wedi bod i adnoddau DEL ac AME anghyllidol, sef £551m a £546m yn y drefn honno (gweler Tabl 3.1).

Mae'r gyllideb anghyllidol yn cynrychioli gostyngiadau yng ngwerth asedau, hynny yw, dibrisiant ac amhariadau.

Adlewyrchir y gostyngiad mwyaf ym MEG y Gymraeg ac Addysg ac mae'n ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr lle rhagwelir y bydd y gostyngiad yng ngwerth tâl cyfrifyddu a chyllidebu adnoddau benthyciadau i fyfyrwyr yn is na'r disgwyl yn y gyllideb atodol gyntaf.

Mae'r gostyngiad ym MEG Newid Hinsawdd yn adlewyrchu'n bennaf gynnydd disgwyledig yng ngwerth asedau coedwigaeth ac asedau biolegol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu dal.

Mae cyllidebau anghyllidol wedi'u neilltuo ac nid oes modd eu defnyddio at ddibenion eraill.

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23

3.1 Mae tablau 3.1 i 3.4 yn nodi effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEG.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

CYDRANNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Atodol 2022-23 Mehefin 2022	Newid-iadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Chwefror 2023
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyllidol	15,273,086	185,695	15,458,781
Anghyllidol	1,782,731	-550,699	1,232,032
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	34,000	91,000	125,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyllidol	28,063	-2,192	25,871
Anghyllidol	192,700	-546,057	-353,357
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Ardrethi Annomestig	1,030,000	0	1,030,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,477,747	0	2,477,747
Treth Trafodiadau Tir	380,542	14,196	394,738
Treth Gwarediadau Tirlenwi	35,188	8,251	43,439
Prif ad-daliad benthycu	-2,476	0	-2,476
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	21,231,581	-799,806	20,431,775
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyffredinol	2,717,270	-80,307	2,636,963
Trafodiadau Ariannol	265,026	-70,312	194,714
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	0	50,000	50,000
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyfalaf	1,051,806	-33,699	1,018,107
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Benthycu	150,000	0	150,000
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	4,184,102	-134,318	4,049,784
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	25,415,683	-934,124	24,481,559

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd			
	Cyllideb Atodol 2022-23 Mehefin 2022 Ailddatganwyd	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Chwefror 2023	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,444,691	348,695	10,793,386	
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,748,654	102,577	5,851,231	
Y Gymraeg ac Addysg	3,485,229	-714,560	2,770,669	
Y Newid yn yr Hinsawdd	3,042,556	-96,454	2,946,102	
Yr Economi	559,473	4,687	564,160	
Materion Gwledig	421,849	-777	421,072	
Cyfiawnder Cymdeithasol	276,352	-8,844	267,508	
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	358,680	3,837	362,517	
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	24,337,484	-360,839	23,976,645	
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	152,305	-150,824	1,481
	Adnoddau Anghyllidol	699,206	-360,299	338,907
Cyfalaf heb ei Ddyrannu	Trafodiadau Ariannol	214,104	-72,546	141,558
Cyfalaf Cyffredinol Dros y Dyraniad		-68,228	7,818	-60,410
Comisiwn y Senedd ^{Nodyn 1}		65,003	-1,075	63,928
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ^{Nodyn 2}		5,388	-16	5,372
Swyddfa Archwilio Cymru ^{Nodyn 3}		8,254	3,525	11,779
Y Comisiwn Etholiadol ^{Note 4}		1,419	122	1,541
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru		748	10	758
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU	25,415,683	-934,124	24,481,559	

Nodiadau

1. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2022-23 ei chyflwyno i'r Cyfarfod Llawn gan Gomisiwn y Senedd ym mis Chwefror 2023. Adroddodd ostyngiad o £835k yn ei hadnodd cyllidol a £240k yn ei hadnodd anghyllidol.

2. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2022-23 ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Medi 2022. Adroddodd ostyngiad o £16k yn ei adnodd cyllidol.
3. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2022-23 ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2022. Adroddodd gynnydd o £96k mewn adnodd cyllidol, cynnydd o £4k mewn adnodd anghyllidol a chynnydd o £3,425k mewn cyfalaf.
4. Cafodd cyllideb atodol ar gyfer 2022-23 ei chyflwyno i Bwyllgor y Llywydd gan y Comisiwn Etholiadol ym mis Hydref 2022. Adroddodd gynnydd o £122k yn ei adnodd cyllidol.

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau MEG Adnoddau Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	Cyllideb Atodol 2022-23 Mehefin 2022 Ailddatganwyd	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Chwefror 2023	Cyllideb Atodol 2022-23 Mehefin 2022 Ailddatganwyd	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Chwefror 2023
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,539,304	332,433	9,871,737	292,100	-7,314	284,786
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,504,682	91,196	4,595,878	421	33	454
Y Gymraeg ac Addysg	1,763,121	31,650	1,794,771	460,105	-249,951	210,154
Y Newid yn yr Hinsawdd	854,281	11,200	865,481	277,464	63,998	341,462
Yr Economi	399,835	-10,550	389,285	17,136	677	17,813
Materion Gwledig	356,587	23	356,610	10,817	0	10,817
Cyfiawnder Cymdeithasol	229,532	-6,786	222,746	261	-21	240
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	326,883	2,237	329,120	18,597	1,600	20,197
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	17,974,225	451,403	18,425,628	1,076,901	-190,978	885,923

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Atodol 2022-23 Mehefin 2022 Ailddatganwyd	Newid- iadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Chwefror 2023	Cyllideb Atodol 2022-23 Mehefin 2022 Ailddatganwyd	Newid- iadau	Cyllideb Atodol 2022-23 Cynlluniau Newydd Chwefror 2023
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	424,761	-14	424,747	0	0	0
Cyllid a Llywodraeth Leol	213,571	10,895	224,466	-20	0	-20
Y Gymraeg ac Addysg	355,848	-2,000	353,848	1,093	2,234	3,327
Y Newid yn yr Hinsawdd	1,741,356	-51,081	1,690,275	69,062	0	69,062
Yr Economi	117,686	1,560	119,246	-20,709	0	-20,709
Materion Gwledig	54,445	-800	53,645	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	17,000	155	17,155	1,496	0	1,496
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	10,000	0	10,000	0	0	0
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	2,934,667	-41,285	2,893,382	50,922	2,234	53,156

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i ffynonellau'r cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn ym mhennod 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 3.3** Cafwyd cynnydd net o £276,695k yn llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol oherwydd trosglwyddiadau a roddwyd ar waith fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2023 gan gynnwys tynnu o Gronfa Wrth Gefn Cymru. Mae'r newid yn cynnwys y symudiadau canlynol:

- Cynnydd net o £152,341k o ganlyniad i drosglwyddiadau gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth a oedd yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol o fwy na £1,000k;
 - Trosglwyddiad i mewn o £61,985k oddi wrth yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) mewn perthynas â Thariff Cyffredinol Ffoaduriaid Wcráin;
 - Trosglwyddiad i mewn o £44,045k oddi wrth y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r balans sy'n ddyledus am 2022-23 ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - Trosglwyddiad i mewn o £22,800k oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) mewn perthynas â'r cynllun talu iawndal dros dro gwaed heintiedig;
 - Trosglwyddiad i mewn o £12,415k oddi wrth yr Adran Addysg (DfE) mewn perthynas â Thariff Addysg Ffoaduriaid Wcráin);
 - Trosglwyddiad i mewn o £6,215k oddi wrth DHSC mewn perthynas â defnyddio cyffuriau gwrthfeirrol;
 - Trosglwyddiad i mewn o £5,683k oddi wrth DHSC mewn perthynas â throsglwyddiadau Covid Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) yng Nghymru;
 - Trosglwyddiad i mewn o £2,634k oddi wrth yr Adran Drafndiaeth (DfT) mewn perthynas â chynnal ac adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd;

- Trosglwyddiad i mewn o £1,370k oddi wrth DfE mewn perthynas â'r balans ynglŷn â'r cyllid addysg a gofal plant i ffoaduriaid o Affganistan sy'n dal i fod mewn gwestai pontio; a
- Trosglwyddiad allan o £5,435k i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas â'r rhaglen Rhwydweithiau Natur.
- Cynnydd o £91,000k oherwydd tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £62,673k.
- Trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £31,905k oddi wrth Drysorlys EF mewn perthynas â chyllid nad yw'n gyllid Barnett, sy'n cynnwys:
 - £24,765k mewn perthynas â'r Gronfa Gymorth i Aelwydydd; a
 - £7,140k mewn perthynas ag ad-daliadau Ardrethi Busnes.
- Hawliadau amrywiol ar cronfeydd wrth gefn Llywodraeth y DU yn dod i gyfanswm o £29,114k;
- Gostyngiad o £57,440k o ganlyniad i newid rhwng cyllid adnoddau a chyfalaf;
- Gostyngiad o £32,661k o ganlyniad i newid yn yr addasiad i'r grant bloc; a
- Gostyngiad o £237k yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith ac a gymhwyswyd yn Natganiad yr Hydref ym mis Tachwedd 2022.

Adnoddau Anghyllidol

3.4 Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf mae llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi gostwng £550,699k, sy'n cynnwys:

- Gostyngiad o £1,364k yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith ac a gymhwyswyd yn Natganiad yr Hydref ym mis Tachwedd 2022;
- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett gwerth cyfanswm £30,825k a ddaeth i law yn Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2023; a

- Gostyngiad o £580,160k adeg yr Amcangyfrifon Atodol mewn perthynas ag addasiad nad yw'n Barnett i Fenthyciadau Myfyrwyr.

Cyllido Datganoledig Cymru

3.5 Mae incwm treth ddatganoledig wedi cynyddu £22,447k ers y gyllideb Atodol Gyntaf sy'n cynnwys cynnydd o £14,196k mil mewn perthynas â'r Dreth Trafodiadau Tir a chynnydd o £8,251k mewn perthynas â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Nid yw'r swm y mae ei angen i ad-dalu prifswm benthyca wedi newid sef £2,476k.

Cyfalaf Cyffredinol

3.6 Mae llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol wedi gostwng £30,307k ers y Gyllideb Atodol Gyntaf o ganlyniad i'r Amcangyfrifon Atodol ym mis Chwefror 2023. Mae'r newid yn cynnwys y symudiadau canlynol:

- Gostyngiad o £75,000k mewn perthynas ag ildio cyfalaf gormodol yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith;
- Gostyngiad o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £34,693k;
- Gostyngiad o £30,000k mewn perthynas â chyfraniad cyfalaf Llywodraeth Cymru i Wcráin;
- Cynnydd o £57,440k o ganlyniad i newid rhwng cyllid adnoddau a chyfalaf;
- Cynnydd o £50,000k oherwydd tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru; a
- Cynnydd o £1,781k o ganlyniad i hawliadau ar cronfeydd wrth gefn Llywodraeth y DU; a
- Cynnydd net o £165k o ganlyniad i drosglwyddiadau gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth a oedd yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol o fwy na £1,000k:

- Trosglwyddiad i mewn o £7,031k oddi wrth DfT mewn perthynas â chynnal ac adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd;
- Trosglwyddiad allan o £4,966k i DCMS mewn perthynas â'r rhaglen Rhwydweithiau Natur; a
- Trosglwyddiad allan o £1,500k i DCMS mewn perthynas â'r Grant Buddsoddi mewn Coetir.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

3.7 Ers y Gyllideb Atodol Gyntaf bu gostyngiad i'r llinell sylfaen a glustnodwyd ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol o £70,312k oherwydd symiau canlyniadol Barnett a weithredwyd fel rhan o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU ym mis Chwefror 2023.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2022-23 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM DYRANIADAU MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,871,737	284,786	10,156,523	424,747	0	424,747	211,676	440	212,116	10,793,386
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,595,878	454	4,596,332	224,466	-20	224,446	1,030,453	0	1,030,453	5,851,231
Y Gymraeg ac Addysg	1,794,771	210,154	2,004,925	353,848	3,327	357,175	-608,833	1,017,402	408,569	2,770,669
Y Newid yn yr Hinsawdd	865,481	341,462	1,206,943	1,690,275	69,062	1,759,337	-20,178	0	-20,178	2,946,102
Yr Economi	389,285	17,813	407,098	119,246	-20,709	98,537	58,525	0	58,525	564,160
Materion Gwledig	356,610	10,817	367,427	53,645	0	53,645	0	0	0	421,072
Cyfiawnder Cymdeithasol	222,746	240	222,986	17,155	1,496	18,651	25,871	0	25,871	267,508
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	329,120	20,197	349,317	10,000	0	10,000	3,200	0	3,200	362,517
CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGS LLYWODRAETH CYMRU	18,425,628	885,923	19,311,551	2,893,382	53,156	2,946,538	700,714	1,017,842	1,718,556	23,976,645

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng Portffolios y Gweinidogion yn y gyllideb atodol hon yn dod i gyfanswm o £30,220k. Crynhoir effaith net y trosglwyddiadau ar bob un o'r MEGs yn y tabl isod.

	Adnoddau			Cyfalaf		
	I	O	Trosglwyddiadau Net	I	O	Trosglwyddiadau Net
H&SS	1,567	-6,683	-5,116	3,441	0	3,441
F&LG	791	-516	275	0	0	0
E&WL	18,063	-1,736	16,327	0	-2,000	-2,000
CC	4,187	-1,000	3,187	0	-1,220	-1,220
Economi	525	-12,467	-11,942	0	-221	-221
RA	900	-285	615	0	0	0
SJ	746	-3,972	-3,226	0	0	0
CS&A	0	-120	-120	0	0	0
	26,779	-26,779	0	3,441	-3,441	0

4.2 Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1,000m fel a ganlyn:

4.3 Dau drosglwyddiad adnoddau gwerth cyfanswm o £5,349k o'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i MEG y Gymraeg ac Addysg yn ymwneud ag estyn trefniadau Bwrsari'r GIG yn cynnwys:

- £3,250k o BEL y Gyllideb GIG Arall i BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr a
- £2,099k o'r BEL Addysg a Hyfforddiant i'r BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC

4.4 Dau drosglwyddiad gwerth £3,000k o MEG y Gymraeg ac Addysg i MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r Model Noddfa lechyd Meddwl a'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i gyflawni'r ymrwymiad iechyd meddwl i brofi dewisiadau eraill yn hytrach na derbyn plant ifanc mewn argyfwng i'r ysbyty. Mae'r trosglwyddiadau'n cynnwys:

- Adnodd o £1,000k o'r BEL Dull Ysgol Gyfan i'r BEL Iechyd Meddwl; a
 - Cyfalaf o £2,000k o'r BEL Seilwaith Addysg i'r BEL Iechyd Meddwl.
- 4.5** Dau drosglwyddiad adnoddau gwerth £11,000k o BEL Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warrant i Bobl Ifanc o fewn MEG yr Economi i BEL darpariaeth ôl-16 o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg sy'n cynnwys:
- Buddsoddiad ychwanegol o £10,000k ar gyfer cyfrifon dysgu personol; a
 - Cymorth o £1,000k i ddarparu'r Cynllun Peilot Sgiliau Sero Net.
- 4.6** Un trosglwyddiad adnoddau o £3,952k o BEL Cynhwysiant Ariannol o fewn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol BEL y Rhaglen Tlodi Tanwydd o fewn MEG Newid yn yr Hinsawdd mewn perthynas â'r Sefydliad Banc Tanwydd.

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

5.1 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng BELs o fewn yr un portffolios a gynhwysir yn Nhablau'r BELs cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEG unigol. Nodir y MEGs lle mae'r trosglwyddiadau hyn yn uwch na £1,000m isod:

lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.2 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £124,734k rhwng BELs o fewn MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio'r dyraniadau â'r Byrddau lechyd Lleol yn gywir; ac
- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymadau penodol.

Cyllid a Llywodraeth Leol

5.3 Cafwyd un trosglwyddiad rhwng MEG Cyllid a Llywodraeth Leol. Mae £1,233k wedi'i drosglwyddo o BEL Rhyddhad Ardrethi Ardrethi Annomestig i BEL y Cynllun Cymorth Costau Byw.

Y Gymraeg ac Addysg

5.4 Cafwyd trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £3,667k rhwng BELs y Gymraeg ac Addysg. Y mwyaf sylweddol o'r rhain oedd trosglwyddo £2,300k o BEL darpariaeth ôl-16 i BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC mewn perthynas â chyllid Pontio Adnewyddu a Diwygio.

Y Newid yn yr Hinsawdd

5.5 Mae pedwar trosglwyddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £58,534k wedi digwydd rhwng BELs yn MEG Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r cyfan yn cynnwys trosglwyddo arian i'r BEL Grant Tai Cymdeithasol ac yn ymwneud ag ailflaenoriaethu'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP). Mae'r cyfanswm yn cynnwys:

- £23,000k a drosglwyddwyd o BEL y Gronfa Gofal Integredig;
- £22,000k a drosglwyddwyd o BEL Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd;
- £9,733k o BEL Tai'r Farchnad Agored a Chynlluniau Eraill; a
- £3,801k o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr a BEL Cyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli.

Yr Economi

5.6 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £6,467k wedi digwydd rhwng BELs yn MEG yr Economi. Y mwyaf sylweddol o'r rhain oedd £4,437k a drosglwyddwyd o BEL Datblygu Economaidd Busnes a Rhanbarthol i BELs amrywiol yn ymwneud â chyrrff a noddir, er mwyn cefnogi'r codiad cyflog, chwyddiant cyfleustodau a grantiau costau byw.

Mae trosglwyddiadau cyfalaf lluosog gwerth £3,935k hefyd wedi digwydd. Y mwyaf sylweddol o'r rhain oedd £1,540k a drosglwyddwyd o BELs amrywiol i BEL Chwaraeon Cymru er mwyn ariannu prosiectau gwaddol Cwpan y Byd FIFA a phrosiectau cyfleuster BMW.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

5.7 Cafwyd dau drosglwyddiad o fewn BELs o fewn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. Mae un trosglwyddiad adnoddau o £3,250k o BEL Costau TG i BEL Costau Staff ariannu Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE), ac un trosglwyddiad cyfalaf unigol o £1,000k o BEL Costau TG i BEL Ymchwil Ganolog i sicrhau bod cyllidebau'n cyd-fynd â chostau.

6. Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

6.1 Mae'r gyllideb hon yn cysoni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt. Nodir trosglwyddiadau o fwy na £1,000k yn adrannau 6.2 i 6.9 ond mae rhestr lawn i'w gweld yn nhabl 6.1.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.2 Mae dyraniadau gwerth cyfanswm o £542,680k wedi'u gwneud o gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn i'r MEGs yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £170,000k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG i gefnogi'r GIG;
 - £120,000k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG i gefnogi setliad cyflog posibl i staff GIG Cymru;
 - £44,045k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn dilyn trosglwyddiad o'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - £22,800k i BEL Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG yn dilyn trosglwyddiad o DHSC mewn perthynas â'r cynllun talu iawndal dros dro gwaed heintiedig;
 - £13,846k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn dilyn trosglwyddiad o Drysorlys EF ynghylch symiau blynyddoedd blaenorol ar gyfer y Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - £6,215k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn dilyn trosglwyddiad o DHSC mewn perthynas â chyllid defnyddio cyffuriau gwrthfeiol;
 - £5,682k i BEL Dyraniadau Craidd y GIG yn dilyn trosglwyddiad o DHSC mewn perthynas â throsglwyddo COVID UKHSA i Gymru.
- Cyllid a Llywodraeth Leol:
 - £51,438k a £40,226k i BEL Cymorth Ariannol Brys mewn perthynas â'r pecyn cymorth i Wcráin;
 - £12,350k i'r BEL Cymorth Ariannol Brys mewn perthynas â chostau cynnal y Cynllun Cymorth Hunanynysu; a

- £1,702k i BEL Cymorth Ariannol Brys yn dilyn trosglwyddiad o gronfeydd canolog wrth gefn Trysorlys EF ar gyfer costau'n gysylltiedig â marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines.
- Y Gymraeg ac Addysg:
 - £32,000k i BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi setliad cyflog posibl i athrawon; a
 - £1,370k i BEL Grant Gwella Ysgolion yn dilyn trosglwyddiad oddi wrth DfE ar gyfer balans y cyllid ar gyfer addysg a gofal plant ffoaduriaid o Affganistan sy'n dal i fod mewn gwestai pontio.
- Newid yn yr Hinsawdd:
 - £11,000k i BEL Trafnidiaeth Cymru i gywiro gwall wrth gyfrifo'r gostyngiad yn y gyllideb adnoddau ar gyfer rhoi IFRS16 ar waith; a
 - £2,634k i BEL Trafnidiaeth Cymru yn dilyn trosglwyddiad oddi wrth DfT mewn perthynas â chynnal a chadw ac adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd;
- Yr Economi:
 - £1,571k i BEL Mesurau Rheoli Ffiniau yn dilyn trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF;
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:
 - £2,100k i'r BEL Ymchwiliadau mewn perthynas ag ymchwiliad Covid.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.3 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £92,091k wedi'u gwneud o'r MEGs i gronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon ac yn cynnwys:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £46,545k o'r BEL Ymchwil a Datblygu yn ymwneud â newid o adnoddau i gyfalaf ar gyfer aiddosbarthu cyllidebau Ymchwil a Datblygu yn unol â'r ESA10 (System Cyfrifon Ewropeaidd); a

- £1,000k o BEL Hybu Iechyd a'r gostyngiad i'r dyraniad costau byw a wnaed adeg y gyllideb derfynol;
- Cyllid a Llywodraeth Leol:
 - £9,958k o BEL Cymorth Ariannol Brys yn ymwneud â newid o adnoddau i gyfalaf i dalu costau adfer y llifogydd ym mis Chwefror 2020; a
 - £3,900k o BEL Buddsoddi i Arbed yn ymwneud â thanwariant a ragwelwyd ac ailddyrannu adnoddau;
- Y Gymraeg ac Addysg:
 - £13,300k o BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr mewn perthynas â chyfraniad ar gyfer ailflaenoriaethu adnoddau: a
 - £4,754k o BEL Darpariaeth ôl-16 yn ymwneud â chyllid COVID a adhawliwyd o Golegau Addysg Bellach;
- Newid yn yr Hinsawdd:
 - £5,435k o BEL Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion i dalu am drosglwyddiad i DCMS a dalwyd o gronfeydd canolog adeg amcangyfrifon atodol;
- Yr Economi:
 - £1,351k o BEL Seilwaith Eiddo yn ymwneud â rhoi IFRS16 ar waith; a
- Cyfiawnder Cymdeithasol:
 - £3,900k o BEL Cynhwysiant Ariannol yn ymwneud â thanwariant a ragwelwyd ac ailddyrannu adnoddau.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.4 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £74,172k wedi'u gwneud i'r MEGs i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon gan gynnwys:

- Y Gymraeg ac Addysg:

- £2,488k i'r BEL Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg mewn perthynas ag amorteiddio'r cytundeb trwyddedu ar gyfer Microsoft 365;
- Newid yn yr Hinsawdd:
 - £44,000k i BEL Trafnidiaeth Cymru yn ymwneud â chynnydd yn nibrisiant Llinellau Craidd y Cymoedd a dibrisiant ar gyfer Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig; a
 - £25,309k i BEL Gweithrediadau'r Rhwydwaith yn ymwneud â chynnydd yn nibrisiant y rhwydwaith ffyrdd;
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu:
 - £1,600k i BEL Gwariant Gweinyddu Cyffredinol mewn perthynas â'r dibrisiant wedi'i gyflymu ar werth dau eiddo ar y llyfrau.

Dyraniadau i Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.5 Mae £264,336k wedi'i drosglwyddo o'r MEGs i gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon gan gynnwys:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £6,523k o BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â gostyngiad yn y gofyniad anghyllidol ar gyfer rhoi IFRS16 ar waith yn GIG Cymru.
- Y Gymraeg ac Addysg:
 - £252,439k o BEL Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Myfyrwyr yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr a'r gostyngiad yng ngwerth y tâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau benthyciadau myfyrwyr; a
- Newid yn yr Hinsawdd:
 - £5,311k o BEL Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â gostyngiad yn y gofyniad anghyllidol ar gyfer gweithredu IFRS16.

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

6.6 Mae trosglwyddiadau gwerth cyfanswm o £66,807k wedi'u gwneud i'r MEGs o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon gan gynnwys:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £46,545k i'r BEL Ymchwil a Datblygu yn ymwneud â newid o adnoddau i gyfalaf ar gyfer aiddosbarthu cyllidebau Ymchwil a Datblygu yn unol â'r ESA10 (System Cyfrifon Ewropeaidd);
- Cyllid a Llywodraeth Leol:
 - £9,958k i'r BEL Cymorth Ariannol Brys yn ymwneud â newid o adnoddau i gyfalaf i dalu costau adfer y llifogydd ym mis Chwefror 2020;
- Newid yn yr Hinsawdd:
 - £7,031k i BEL Trafnidiaeth Cymru yn dilyn trosglwyddiad oddi wrth DfT mewn perthynas â chynnal a chadw ac adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd; a
- Yr Economi:
 - £1,781k i BEL Mesurau Rheoli Ffiniau yn dilyn trosglwyddiad o gronfeydd wrth gefn Trysorlys EF.

Dyraniadau i Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

6.7 Mae £108,092k wedi'i drosglwyddo o'r MEGs i gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon gan gynnwys:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £50,000k o BEL Dyraniadau Craidd y GIG ynghylch gostyngiad yn y gofyniad cyfalaf ar gyfer rhoi IFRS16 ar waith gan GIG Cymru;
- Newid yn yr Hinsawdd:
 - £50,826k o BEL Trafnidiaeth Cymru ynghylch gostyngiad yn y gofyniad cyfalaf ar gyfer rhoi IFRS16 ar waith. Nid oes angen hyn bellach oherwydd gwahaniaethau amseru; a

- £6,466k i dalu am ddau drosglwyddiad i DCMS a dalwyd o gronfeydd canolog wrth gefn adeg amcangyfrifon atodol. £4,966 o'r BEL Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion ac £1,500k o'r BEL Coedwigaeth.

Dyraniadau gyda Chronfeydd Cyfalaf Trafodiadau Wrth Gefn

